**Clefyd Llid y Coluddyn (IBD)**
**Llinell Gymorth:- 01633 656055**
**Ysbyty Brenhinol Gwent**
**Ysbyty Neuadd Nevill,**
**Ysbyty Ystrad Fawr**

**Nyrs Glinigol Arbenigol - Allyson Lewis**

## Y Tîm Gastroenteroleg

Rydych chi'n mynychu un o'n clinigau cleifion allanol oherwydd bod gennych chi Lid Briwiol y Coluddyn neu Glefyd Crohn. Bydd y Tîm Gastroenteroleg arbenigol yn gofalu amdanoch chi:-

| | |
|---|---|
| Dr N Balaratnam | Meddyg Ymgynghorol/Gastroenterolegydd |
| Dr V Goel | Meddyg Ymgynghorol/Gastroenterolegydd |
| Dr A Somasekar | Meddyg Ymgynghorol/Gastroenterolegydd |
| Dr A Phillips | Meddyg Ymgynghorol/Gastroenterolegydd |
| Dr A U Rahman | Meddyg Ymgynghorol/Gastroenterolegydd |
| Dr A Joshi | Meddyg Ymgynghorol/Gastroenterolegydd |

Bydd y tîm yn cael cymorth cofrestryddion arbenigol, uwch swyddogion preswyl, swyddogion preswyl a deietegwyr, yn ogystal ag arbenigwyr nyrsio clinigol mewn clinigau ac ar y wardiau

## Gwybodaeth a Chyngor

Mae'r Nyrsys Clinigol Arbenigol yn cynnig:-

- Cyngor dros y ffôn trwy linell gymorth IBD os yw eich cyflwr yn gwaethygu neu os oes gennych chi gwestiwn am feddyginiaeth.
- Cyswllt ar e-bost ar gyfer ymholiadau cyffredinol os nad ydych chi'n gallu defnyddio'r llinell gymorth.
- Cyngor am symptomau, gan gynnwys symptomau sy'n gwaethygu, a'ch cyfeirio at y clinig mwyaf addas pan fo angen. Cyngor ynglŷn â deiet, beichiogrwydd, ffordd o fyw, gwaith a gwyliau.
- Cefnogaeth a manylion am sefydliadau a all gynnig cymorth a chefnogaeth.
- Apwyntiadau cleifion allanol dilynol dan arweiniad nyrs ar gyfer rhai cleifion.

**Llinell Gymorth:**

Cynhelir y llinell gymorth gan:-

Allyson Lewis - Nyrs Glinigol Arbenigol (IBD)
**Rhif ffôn: -** 01633 – 656055
e-bost:- IBDHelp@wales.nhs.uk

Byddwch yn cyrraedd peiriant ateb wrth ffonio'r rhif uchod.
Gadewch neges gan gynnwys:-

- Eich enw
- Dyddiad geni/rhif ysbyty
- Rhif ffôn cyswllt
- Neges fer yn rhoi'r rheswm dros ffonio

Byddwn yn eich ffonio'n ôl ymhen dau ddiwrnod gwaith.

Mewn argyfwng neu y tu allan i'r oriau hyn, cysylltwch â'ch Meddyg Teulu/Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau neu Galw Iechyd Cymru ar 0845 46 47.

Mae'r taflenni gwybodaeth a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Os ydych chi'n teimlo y dylid cynnwys gwybodaeth ychwanegol mewn diweddariadau yn y dyfodol, yna cysylltwch â: -

Allyson Lewis - Nyrs Glinigol Arbenigol (IBD)
Meddygaeth/Gastroenteroleg
Bloc 9, Ysbyty Brenhinol Gwent
Casnewydd NP20 2UB

Dyddiad:

DYDDIAD ADOLYGU:

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English**